RHONDDA CYNON TAF

# gwasanaethau chwarae play services

#03 2021

**Ffaith ddifyr!**
Oeddet ti'n gwybod..
Mae gan Gymru fwy na 600 o gestyll, sy'n fwy nag unrhyw wlad arall.

## Dyfyniad yr wythnos

GWNEWCH Y PETHAU BYCHAIN

## Gwir neu Anwir

Yr Wyddfa yw mynydd uchaf Cymru.

Yr Ateb yw... Bydd yr ateb yn y cylchlythyr nesaf!

**Ateb y mis diwethaf oedd... ANWIR!**

Dydy'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ddim yn dechrau ar yr un diwrnod bob blwyddyn - gall ddechrau ar unrhyw ddyddiad rhwng 21 Ionawr a 20 Chwefror.

## AMSER CYSTADLEUAETH!

**Ar ba ddiwrnod o'r wythnos ydyn ni'n dathlu ein Mamau ym mis Mawrth?**

E-bostia dy ateb, dy enw a dy oed at:
**ChwaraeRhCT@rctcbc.gov.uk**
Cystadleuaeth yn cau erbyn 12.00pm
**Dydd Gwener 2 Ebrill**
**** Rhaid i chi fod yn 5-14 oed i gymryd rhan ****

**ATEB Y MIS DIWETHAF:**
**15 metr** oedd lled y grempogen fwyaf a wnaed erioed.

## Dolenni Defnyddiol...

- www.dltk-kids.com
- www.chwaraecymru.org.uk
- www.rctcbc.gov.uk/plantatheuluoedd
- www.themathsfactor.com
- www.activemusic.ie
- www.facebook.com/musictotswhitby


Ble mae defaid yn mynd ar eu gwyliau?
I A-meee-rica!

RHONDDA CYNON TAF

# Dydd Gwyl Dewi

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| j | u | a | v | s | m | j | d | d | d | a | m |
| k | ff | h | b | k | p | t | w | o | u | m | p |
| h | o | h | x | c | m | e | d | h | r | r | j |
| j | t | th | c | f | h | c | g | q | m | d | h |
| x | z | r | w | a | q | w | n | v | y | a | c |
| d | e | w | i | n | s | w | h | p | c | y | i |
| f | o | a | f | i | a | t | n | b | m | o | b |
| f | t | m | p | n | n | g | e | r | x | c | f |
| d | d | e | x | n | t | r | a | ll | y | l | k |
| a | d | v | h | e | z | e | u | n | l | s | v |
| s | h | n | e | c | g | h | e | r | t | a | b |
| l | l | i | d | o | ff | a | d | r | a | i | g |

❍ castell
❍ cymru
❍ daffodil
❍ dewi
❍ draig
❍ het
❍ sant
❍ cennin
❍ cymraeg
❍ mawrth



# CERDYN SUL Y MAMAU



**Bydd angen...**

- Cerdyn a phapur lliw
- Siswrn
- Paent
- Pinnau ffelt lliw
- Gwellt yfed
- Glud / tâp selo

**Cyfarwyddiadau:**

1. Cymerwch ddalen o gerdyn lliw A4 a'i phlygu yn ei hanner, dyma fydd sylfaen y cerdyn.
2. Tynnwch lun o fâs neu bot blodau ar ddalen arall o gerdyn, a'i dorri allan gyda siswrn. Mae modd ysgrifennu neges Sul y Mamau arno fel gwelwch chi yn y lluniau.
3. Gallwch chi naill ai baentio'ch dwylo a'ch traed gan ddefnyddio'r paent a gwneud printiau neu ddefnyddio'r papur lliw a thynnu llun o amgylch eich dwylo a'ch traed.
4. Os gwnaethoch chi brintiau gyda'r paent, gadewch iddyn nhw sychu ac yna torrwch nhw allan.
5. Nawr rhowch y cyfan at ei gilydd. Rhowch lud o amgylch ochrau a gwaelod eich fâs. Cofiwch adael y pen ar agor, a glynwch eich fâs wrth eich cerdyn.
6. Nesaf, cymerwch eich olion traed/dwylo a glynwch nhw wrth y gwellt yfed gan ddefnyddio tâp selo.
7. Ar ôl gwneud hynny, os ydy'r fâs yn sych, rhowch y blodau ynddi
8. Nawr gallwch chi roi gwên ar wyneb rhywun arbennig ar Sul y Mamau gyda'r cerdyn wnaethoch chi â llaw - peidiwch ag anghofio'r dyddiad; Dydd Sul 14 Mawrth 2021.